

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu Cadarnhau

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021 am 2.30pm drwy Zoom**

Yn bresennol

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Andrew Jarrett	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Christine Morrell	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd
Christine Williams	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
Jackie Davies	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Maggie Berry	Aelod Annibynnol
Mark Child	Aelod Annibynnol
Martin Sollis	Aelod Annibynnol
Martyn Waygood	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Siân Harrop-Griffiths	Cyfarwyddwr Strategaeth
Tom Crick	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol

Hefyd yn bresennol:

Hannah Evans	Cyfarwyddwr Trawsnewid
Matt John	Cyfarwyddwr Digidol
Rab McEwan	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Andrew Biston	Pennaeth Cyfrifyddu a Llywodraethu
Jason Blewitt	Archwilio Cymru
Anthony Veale	Archwilio Cymru

Rhif Cofnod		Cam gweithredu
125/21	CROESO AC YMDDIHEURIADAU	
	Croesawodd Emma Woollett bawb i'r cyfarfod. Nododd mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd olaf Martin Sollis ac ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd fod Kathryn Jones wedi cael swydd y tu allan i'r sefydliad ac y byddai'n gadael ym mis Gorffennaf 2021. Ar ran y bwrdd, diolchodd	

	Emma Woollett i Martin Sollis am ei ymrwymiad a'i gefnogaeth i'r bwrdd a'r sefydliad dros y pedair blynedd diwethaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan Reena Owen, Aelod Annibynnol a Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (OD).	
126/21	DATGAN BUDDIANNAU	
	Cyhoeddodd Darren Griffiths fuddiant ar gyfer yr eitem yn ymwneud â'r cyfrifon blynyddol gan fod aelod o'r teulu'n gweithio i Groes Goch Prydain, sydd wedi'i gofnodi yn y cyfriflyfr. Rhoddodd sicrwydd iddo ei wahanu ei hun oddi wrth yr holl drafodion perthnasol.	
127/21	CYFRIFON ARIANNOL BLYNYDDOL 2020-21	
	Derbyniwyd adroddiad a chyflwyniad yn nodi'r cyfrifon ariannol 2020-21 ar gyfer eu cymeradwyo. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Andrew Biston sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y cyfrifon drafft wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2021; - Roedd Archwilio Cymru wedi cychwyn ei adolygiad o'r cyfrifon ar 4 Mai 2021 ac roedd hyn bellach wedi'i gwblhau, gyda'r canfyddiadau wedi'u trafod yn fanwl yn y Pwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod Bwrdd hwn; - Roedd y bwrdd iechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i faintoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd (2018-19 i 2020-21). Cofnodwyd diffyg o £24.304m ar gyfer y flwyddyn 2020-21, a chofnodwyd diffyg o £50m ar gyfer y cyfnod treigl o dair blynedd; - Roedd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i gael terfyn adnoddau cyfalaf cytbwys, gan gyflawni tanwariant o £28k yn erbyn cyllideb o £49m. Dros y tair blynedd, tanwariwyd cyfanswm llwyr o £96k; - Ni chyflawnwyd y ddyletswydd ariannol derfynol i gael cynllun tair blynedd cymeradwy. Er bod y gofyniad hwn wedi'i oedi yng ngwanwyn 2020 oherwydd y pandemig, roedd sefyllfa'r bwrdd iechyd o beidio â chael un cyn hyn yn parhau i fodoli;	

	- Roedd y targed arfer gorau o dalu 95% o anfonebau o fewn 30 diwrnod wedi ei fethu o fewn ychydig, sef 93.9% - Derbyniwyd £149m o incwm ychwanegol i gefnogi'r ymateb i Covid-19 a oedd wedi dod â'r sefyllfa ariannol yn ôl i'r rhagolwg gwreiddiol. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cofnododd Darren Griffiths ei ddiolch i Andrew Biston a'r tîm cyllid, yn ogystal ag Archwilio Cymru, am y gwaith i gwblhau'r cyfrifon blyneddol yn ystod blwyddyn heriol iawn. Cytunodd Emma Woollett, gan ychwanegu i hon fod yn flwyddyn anghyffredin ac i waith eithriadol gael ei gyflawni er gwaethaf yr amgylchiadau. Cydnabu Tom Crick fod y methiant i gyflawni cynllun tair blynedd yn seiliedig ar safle'r bwrdd iechyd fel yr oedd wedi'i gofnodi cyn y pandemig. Dywedodd ei bod yn bwysig nodi mai bwriad y bwrdd iechyd oedd datblygu cynllun o'r fath ond bod Covid-19 wedi atal hyn. Ymatebodd Andrew Biston fod hyn wedi'i amlygu fel rhan o'r broses genedlaethol, gan ychwanegu bod y bwrdd iechyd wedi cynnwys nodyn yn ei gyfrifon yn cyfeirio at isgyfeirio o 'ymyrraeth wedi'i thargedu' i 'fonitro gwell' er mwyn rhoi cyd-destun y sefyllfa. Cadarnhaodd Martin Sollis, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod y pwyllgor wedi ystyried y cyfrifon drafft a therfynol yn fanwl ac wedi cytuno i'w hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.	
Penderfyniad	- Mae'r cyfrifon blyneddol ar gyfer 2020-21 i'w cymeradwyo er mwyn gallu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser, sef hanner dydd ar ddydd Gwener 11 Mehefin 2021.	
128/21	ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL ISA 260 ARCHWILIO CYMRU	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o'r cyfrifon blyneddol ar gyfer 2020-21. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Jason Blewitt sylw at y pwyntiau a ganlyn: - Cytunwyd ar yr adroddiad gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Cyfrifeg a Llywodraethu; - Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod cyn y Bwrdd; - Byddai barn wir a theg ddiamod, ond barn amodol ar reoleiddra, i'w chyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn	

	perthynas â'r cyfrifon oherwydd y methiant i gyflawni dwy o'r dyletswyddau ariannol; - Roedd yr adroddiad yn cynnwys nodyn yn disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Parhaol i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn staff clinigol yn ystod 2019-20; - Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon terfynol nac unrhyw faterion o bwys yr oedd yr archwilwyr yn dymuno tynnu sylw'r Bwrdd atynt; - Roedd gan y bwrdd iechyd fân fuddiant mewn cwmni allanol (Zoobiotics) a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer un o'i sefydliadau blaenorol, sef Bro Morgannwg. Oherwydd yr uno a ddigwyddodd wedyn, hwn oedd y tro cyntaf i'r manylion gael eu cynnwys yn y cyfrifon blynyddol.	
Penderfyniad:	- Dylid cymeradwyo'r adroddiad.	
129/21	YMATEB I YMHOLIADAU ARCHWILIO	
	Derbyniwyd a chymeradwywyd adroddiad yn nodi ymateb y bwrdd iechyd i ymholiadau Archwilio Cymru i'r 'rhai'n gyfrifol am lywodraethu'.	
130/21	BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHRYNODEB GWEITHREDOL O'R ADRODDIAD BLYNYDDOL	
	Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu barn y pennaeth archwilio mewmol a chrynodeb gweithredol o'r adroddiad blynyddol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Pam Wenger sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2021; - Rhoddodd yr adroddiad farn o sicrwydd rhesymol am yr archwilio mewmol ar gyfer 2020-21, sef yr un farn â'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf yr heriau; - Cafwyd rhai adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn ac roedd cynlluniau gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â hyn. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn monitro'r cynnydd.	

Penderfyniad:	- Dylid nodi 'r adroddiad.	
131/21	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21	
	Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2020-21. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Pam Wenger sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr adroddiad blynyddol wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn ogystal ag archwilwyr mewnol ac allanol, Llywodraeth Cymru ac aelodau'r Bwrdd; - Roedd yn cynnwys yr adroddiad perfformiad, yr adroddiad atebolrwydd a'r datganiadau ariannol; - Cynhyrchwyd yr adroddiad yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer cyfrifon; - Roedd Archwilio Cymru wedi cymryd sicrwydd rhesymol o system reoli'r bwrdd iechyd a derbyniwyd asesiad strwythuredig cadarnhaol a amlygodd fod llywodraethu da wedi parhau yn ystod y pandemig; - Cafwyd heriau ariannol sylweddol, ond roedd y rheolaethau a'r craffu wedi'u cryfhau; - Yn yr un modd â sefydliadau eraill, bu risg o dorri rheolau sefydlog/cyfarwyddiadau ariannol sefydlog oherwydd yr angen i wneud penderfyniadau cyflym mewn ymateb i'r pandemig. Roedd y gwasanaethau caffael wedi prosesu'r rhain yn unol â rheoliad 32 (offeryn deddfwriaethol a oedd yn darparu ar gyfer proses gaffael symlach) ac roedd y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu pob penderfyniad yn ôl-weithredol er mwyn bod yn drwyadl; - Roedd y cydymffurfiaid â'r cod llywodraethu corfforaethol wedi'i asesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â phedwar achos o dorri rheolau sefydlog; - Fel rhan o'r broses gymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio, codwyd pwynt bach am gywirdeb a byddai hyn yn cael sylw yn y fersiwn derfynol. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cofnododd Emma Woollett ei diolch i'r tîm llywodraethu corfforaethol am y gwaith yn llunio'r adroddiad blynyddol. Nododd hefyd waith y Pwyllgor Archwilio trwy gydol y flwyddyn, gan nodi bod ei rôl yn llawer ehangach na'r adroddiadau diwedd blwyddyn gan ei fod yn	

	bwyllgor sicrwydd allweddol ar gyfer y bwrdd. Diolchodd i Martin Sollis fel ei Gadeirydd a'r aelodau eraill am eu gwaith craffu. Rhoddodd Martin Sollis, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, sicrwydd bod y pwyllgor wedi trafod yr adroddiad yn fanwl ac yn teimlo ei fod yn grynodedig da o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer 2020-21. Dywedodd fod yr aelodau'n fodlon ei argymhell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Cofnododd hefyd ei ddiolch i'r tîm llywodraethu corfforaethol.	
Penderfyniad:	- Cymeradwywyd adroddiad blynyddol 2020-21 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 11 Mehefin 2021.	
132/21	UNRHYW FUSNES ARALL	
	Ni chafwyd unrhyw fusnes arall a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.	
133/21	DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y BWRDD	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 29 Mehefin 2021.	